**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

***<u>Pwynt Craffu Technegol 1:</u>***

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu technegol ac yn cadarnhau y bydd cywiriadau yn cael eu gwneud ar y cyfle cyntaf posibl.

***<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:</u>***

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gall manylion ychwanegol yn y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol fod o gymorth. Nodwn, yn benodol, awgrym y Pwyllgor y byddai natur y darpariaethau hyn yn addas ar gyfer esboniad drwy siart lif. Ystyriwyd hyn ond roedd y safonau hygyrchedd ar gyfer cyflwyniad gwefannau yn argymell peidio â defnyddio'r dull hwn. Mae'r canllawiau wedi cael eu hailstrwythuro i greu tudalen esbonio newydd ac rydym yn gobeithio bod Canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag ymarfer cyfathrebu proffil uchel, yn golygu bod teithwyr yn cael gwybod pa ofynion profi y mae rhaid eu dilyn.

***<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:</u>***

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt craffu ar rinweddau a godwyd.